**Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol**

**Adroddiad blynyddol a datganiad ariannol**

Cyfarfod ar 12 Mawrth 2020

## Yn bresennol

Helen Mary Jones AC, Dr Simon Hoffman (Prifysgol Abertawe), Ele Hicks (Diverse Cymru), Catherine Fookes (Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru), Catherine Lewis (Plant yng Nghymru), Claire Cunliffe (Oxfam Cymru), Katie Palmer (Food Sense Cymru), Melissa Wood (y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru).

## Ymddiheuriadau

Jayne Bryant AC, Darren Millar AC.

## Cofnodion

### [1]+[2] Croeso a diben y cyfarfod: Y wybodaeth ddiweddaraf gan Helen Mary Jones AC

Rhoddodd Helen Mary wybod ei bod yn rhan o'r broses o drafod effeithiolrwydd y Dyletswyddau Cydraddoldeb.

Mae teitl Helen Mary newid, a hi bellach yw Gweinidog Cysgodol yr Economi, Trafnidiaeth a Threchu Tlodi. Ar hyn o bryd, mae hi'n cadeirio'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn ystod cyfnod mamolaeth Bethan Sayed AC.

Soniodd Helen Mary am y cynlluniau i hyrwyddo cydraddoldeb drwy roi statws statudol i gaffael cyhoeddus drwy waith ar bartneriaethau cymdeithasol. Mae'r Senedd wedi cytuno â hyn mewn egwyddor.

### [3] Gwaith ymchwil ar ddatblygu a chryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru

Nododd Simon (Prifysgol Abertawe) ei fod ef, ar y cyd â phartneriaid o Brifysgol Bangor, Diverse Cymru a Plant yng Nghymru (Cymru Ifanc), wedi'i gomisiynu i archwilio ffyrdd o ddatblygu a chryfhau cydraddoldeb a hawliau

dynol yng Nghymru. Roedd wedi dechrau ar y gwaith hwn ym mis Ionawr drwy wneud adolygiad llenyddiaeth, a disgwylir i'r gwaith maes ddechrau ym mis Ebrill. Y bwriad yw ymgysylltu â chynifer o randdeilaid â phosibl. Mynegodd Simon bryder y gallai'r coronafeirws olygu y bydd angen ailymweld ag elfennau o'r gwaith ymgysylltu hwn, ond bod gwaith ar gynlluniau wrthgefn eisoes ar y gweill.

**[4] Gwaith y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi (Claire Cunliffe, Oxfam Cymru)**

Rhoddodd Claire gyflwyniad cyffredinol ar waith y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi. Nodwyd bod y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi yn rhannu nifer o ddiddordebau cyffredin o ran eu gwaith.

O gofio'r uchod, cytunwyd y dylid cynnull cyfarfod ar y cyd rhwng y ddau grŵp trawsbleidiol o amgylch mis Gorffennaf neu tuag at ddiwedd tymor y Cynulliad hwn, yn rhannol i drafod y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith ymchwil ar ddatblygu a chryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

Cytunodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol i gynnal cyfarfod ar y cyd rhwng y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol o amgylch mis Gorffennaf neu tuag at ddiwedd tymor y Cynulliad hwn, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith ymchwil ar ddatblygu a chryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

**Cam gweithredu**: Simon (Prifysgol Abertawe) i drafod y manylion â Claire (Oxfam).

Nododd Claire bod y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi wedi perswadio Llywodraeth Cymru i lunio taflen ffeithiau ar y gwaith ar dlodi sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar draws y Llywodraeth.

**Cam gweithredu**: Simon (Prifysgol Abertawe) i drafod y mater hwn â Claire (Oxfam).

Nodwyd bod strategaeth Llywodraeth Cymru ynghylch tlodi wedi'i newid i fod yn gynllun gweithredu.

**[5] Trafodaeth agored**

*Dyletswydd economaidd-gymdeithasol Cymru*

Cadarnhaodd Helen Mary ei bod yn fodlon cyfeirio unrhyw gwestiynau gan y grŵp ynghylch gweithredu dyletswydd economaidd-gymdeithasol Cymru at y Gweinidog cyfrifol.

*Dylanwadu ar faniffestos*

Mynegodd y grŵp yr awydd i geisio dylanwadu ar faniffestos y pleidiau gwleidyddol cyn etholiadau nesaf y Senedd. Cytunwyd y dylai unrhyw flaenoriaethau gael eu cyfathrebu cyn gynted â phosibl, gan daro cydbwysedd rhwng gofynion cyffredinol a gofynion penodol. Yn ddelfrydol, dylid rhoi gwybod i'r pleidiau gwleidyddol a'r grwpiau trawsbleidiol am y blaenoriaethau hyn ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf.

**[6] Trafod a chymeradwyo'r adroddiad blynyddol**

Trafododd y grŵp yr adroddiad blynyddol. Yn amodol ar ambell mân ddiwygiad, cafodd yr adroddiad ei gytuno.

**Cam gweithredu:** Simon (Prifysgol Abertawe) i ddiwygio'r adroddiad ac anfon copi at Helen Mary i'w gyflwyno i Gomisiwn y Cynulliad.

**[7] Unrhyw fater arall**

I'w nodi: Bydd dadl Cyfnod 1 ar y Bil llywodraeth leol yn cael ei chynnal ar 24 Mawrth. Trafodwyd y posibilrwydd o gynnwys yr hawl i dai digonol yn y pwyllgor. Mae'n bosibl y bydd gwelliant ynghylch cynnwys yr hawl hon yn cael ei gyflwyno.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cyhoeddi ei adroddiad ar y Confensiwn Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol (12 Mawrth).

**[8] Dyddiad y cyfarfod nesaf – gweler y cam gweithredu o dan eitem [4] uchod.**

**[9] Cau'r cyfarfod**

Diolchodd Helen Mary i bawb am eu presenoldeb, gan ddod â'r cyfarfod i ben.